**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL** |
| **SUBJECT:** | **IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD MAWRTH, 25 MAI 2021 DYDD MAWRTH, 25 MAI 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT:

Councillors D. Hancock
M. Day
T. Smith

WITH:

| |
|---|
| Steve Osborne (Swyddog) |
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |
| Michele Bennett (Swyddog) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Pob Cynghorydd (Hysbysu) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>DEDDF TROSEDDU 2003 – TROSGLWYDDO TRWYDDED SAFLE AC AMRYWIO GORUCHWYLIWR SAFLEOEDD DYNODEDIG (DPS) – SCARRETTS, 23 GREENFIELD CRESCENT, BEAUFORT, GLYNEBWY</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu sy'n amlinellu cais a dderbyniwyd yng nghyswllt cais i drosglwyddo trwydded safle ac amrywio'r DPS yn Scarretts, 23 Greenfield Crescent, Beaufort, Glynebwy yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.<br><br>Amlinellodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu yr adroddiad a chadarnhaodd, yn unol â'r broses ymgynghori a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003, y cafodd copi o'r ceisiadau eu rhoi i Heddlu Gwent a gafodd 14 diwrnod i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Nodwyd y derbyniwyd sylwadau gan Heddlu Gwent a atodir i'r adroddiad yn Atodiad 1.<br><br>Ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig ar gyfer y ceisiadau hyn ar gyfer Trosglwyddo Trwydded Safle ac amrywio DPS yn Scarretts, 23 Greenfield Crescent, Glynebwy fel y'u cyflwynir yn adroddiad y Swyddog, ynghyd â sylwadau llafar i'w derbyn ar ran yr Ymgeisydd a Heddlu Gwent.<br><br>Hysbyswyd yr Is-bwyllgor am y gwrthwynebiad a gafwyd gan Heddlu Gwent a gynhwysir yn Atodiad 1 adroddiad y Swyddog a hysbyswyd Aelodau am y problemau difrifol yn yr ardal yn ymwneud â phersonau yn defnyddio'r safle trwyddedig yn y gorffennol.<br><br>Ar y pwynt hwn, dymunai Cyfreithiwr yr Ymgeisydd nodi mai dim ond yng nghyswllt trosglwyddo trwydded yr oedd y cais i gael ei ystyried gan yr Is-bwyllgor gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan Heddlu Gwent yng nghyswllt amrywio'r DPS i'r Ymgeisydd.<br><br>Dilynodd trafodaeth gyfreithiol fanwl ar y mater hwn gan ganolbwyntio ar wahaniaeth barn gyfreithiol rhwng Cyfreithiwr yr Awdurdod a Chyfreithiwr yr Ymgeisydd. Hysbyswyd y Pwyllgor y bu'r mater hwn yn destun gohebiaeth rhwng y Tîm Trwyddedu, Heddlu Gwent a Chyfreithiwr yr Awdurdod ac roedd Cyfreithiwr yr Awdurdod yn fodlon y gellid ystyried y sylwadau a gafwyd gan Heddlu Gwent yng nghyswllt y ddau gais. | |

Gofynnodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd am gael gweld y negeseuon e-bost yn cadarnhau'r manylion hyn. Caniatawyd hyn a chafodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd gopïau o'r negeseuon e-bost rhwng yr Awdurdod Lleol a Heddlu Gwent. Cytunodd y Cadeirydd y gallai Cyfreithiwr yr Ymgeisydd ddarllen y negeseuon e-bost yma i'r Is-bwyllgor.

Cadarnhaodd Cyfreithiwr yr Awdurdod bod ei chyngor yn parhau heb newid ac yn ei barn hi fod y sylwadau yn ymwneud â'r ddau gais ac mai yn y pen draw fod hwn yn fater i'r Pwyllgor ei ystyried.

Felly, dywedodd y Cadeirydd y dylai'r mater barhau a gwahoddodd yr Ymgeisydd i annerch yr Is-bwyllgor.

Dywedodd yr Ymgeisydd na fyddai gan staff blaenorol unrhyw ymwneud â rhedeg y dafarn o ddydd i ddydd. Byddai'r aelodau staff newydd yn cael eu cyfarwyddo gan yr Ymgeisydd. Ychwanegodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd fod y dafarn yn ganolbwynt cymunedol ac yn gartref i'r tîm pêl-droed ieuenctid lleol. Mae gan y dafarn fynediad i gadeiriau olwyn sy'n galluogi preswylwyr o safle lleol i ddod i'r dafarn. Cyfeiriodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd at y neges e-bost gan Heddlu Gwent a ddywedodd nad oedd unrhyw broblem gyda'r Ymgeisydd yn cymryd DPS ac ychwanegwyd y byddai'r Ymgeisydd yn diwygio amserau agor ac yn cyflogi staff diogelwch/drws.

Aeth Cyfreithiwr yr Ymgeisydd ymlaen i ddweud fod yr Ymgeisydd yn uchel ei barch yn y gymuned leol ac y byddai'n cadw golwg ar staff.

Dywedodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd ymhellach y byddai'r Ymgeisydd yn croesawu dialog gyda'r Heddlu yng nghyswllt yr oriau trwyddedu a chyfarfodydd wythnosol parhaus i sicrhau fod y safle yn cael ei fonitro. Yn y cyfnod agor dechreuol byddai gan y dafarn lai o oriau agor ac yn gweithredu polisi dros 21 yn y dyfodol. Bwriadai'r Ymgeisydd gysylltu â phreswylwyr lleol i sicrhau eu bod yn gwybod am y newidiadau a wneir yn y dafarn. Dywedwyd na fyddai'r aelodau presennol o staff yn ymwneud â'r busnes mwyach ac y byddid yn recriwtio staff newydd.

Gofynnodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd i'r Is-bwyllgor roi ystyriaeth i drosglwyddo trwydded y safle yn unig gan nad oedd Heddlu Gwent wedi gwneud unrhyw wrthwynebiad yng nghyswllt y DPS.

Ar y pwynt hwn, rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i Heddlu Gwent i annerch yr Ymgeisydd.

Nododd L. Thomas, cynrychiolydd Heddlu Gwent, y dull rhagweithiol a gynigiodd yr Ymgeisydd pe cymeradwyid y drwydded a gofynnwyd pam na chysylltwyd cyn cyfarfod yr Is-bwyllgor.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei bod wedi ymweld â gorsaf yr heddlu nifer o weithiau ond ei bod ar gau bob tro. Esboniodd yr Ymgeisydd ei bod wedi ceisio ffonio Heddlu Gwent ond heb fynd trwodd a gofynnodd am rif cyswllt y swyddog cydlynu cyfrifol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt profiad fel DPS neu ddeiliad trwydded, cadarnhawyd nad oes gan yr Ymgeisydd brofiad o'r swyddi penodol hyn. Ychwanegodd yr Ymgeisydd fod ganddi flynyddoedd lawer o brofiad o waith bar.

Ar y pwynt hwn, gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddog ac Aelodau i annerch yr Ymgeisydd.

Ni chododd Swyddogion unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd Aelod os y cyflogid staff diogelwch i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a chwsmeriaid yn mynd â gwydrau tu allan i'r safle.

Dywedodd yr Ymgeisydd na chaniateid yfed tu allan i'r ardaloedd dynodedig ac y cyflogid swyddog drws.

Soniodd Aelod arall am y pryderon am sŵn a gafwyd yn yr ardal leol yn deillio o'r safle a gofynnodd pa gamau gweithredu a gymerid i drin y materion hyn.

Atebodd yr Ymgeisydd y gosodwyd drysau dwbl ac y byddai pob ffenestr a drws yn parhau ar gau. Byddid yn gwneud hyn i sicrhau cadw sŵn yn isel.

Dywedodd yr Ymgeisydd y derbyniwyd gohebiaeth gan breswylwyr lleol oedd yn croesawu'r cynigion newydd ac yn gwerthfawrogi'r trefniadau rheoli newydd.

Rhoddodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd grynodeb o'i sylwadau blaenorol ac ailddweud na chredai y derbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan Heddlu Gwent yng nghyswllt y DPS. Dywedodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd na ddylid rhoi ystyriaeth i broblemau a materion blaenorol o fewn y dafarn wrth ystyried yr Ymgeisydd. Byddai cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Heddlu yn y dyfodol, os y'i cymeradwyir, ac er na wnaed cysylltiad dechreuol, teimlai Cyfreithiwr yr Ymgeisydd y gallai Heddlu Gwent fod wedi ymestyn allan i'r Ymgeisydd ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno.

Ailddywedodd Cyfreithiwr yr Ymgeisydd y byddai'r dafarn yn cael ei rhedeg a'i rheoli gan yr Ymgeisydd a neb arall. Nodwyd fod cymeradwyaeth yn hollbwysig wrth gynnal y ganolfan gymunedol hon a groesewid gan bobl leol.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Heddlu Gwent roi crynodeb o'u sylwadau a gofynnodd Cyfreithiwr Heddlu Gwent i'r Is-bwyllgor roi ystyriaeth i'r sylwadau ar y ddau gais fel y cytunwyd gyda chyngor cyfreithiol yr Awdurdod Lleol. Er fod yr Ymgeisydd wedi dweud na fyddai unrhyw ymwneud gan bartïon blaenorol, dylai'r Is-bwyllgor gadw mewn cof fod un o'r staff blaenorol yn briod gyda'r Ymgeisydd.

Rhoddwyd datganiadau pellach gan Heddlu Gwent fel y'u cynhwysir yn y Ddeddf Trwyddedu a gwahoddwyd K. Williams, Heddlu Gwent i roi materion o gonsyrn ar y cais.

Cyfeiriodd K. Williams, Heddlu Gwent at y ffens uchel a godwyd o amgylch y

safle a nododd fod hyn yn atal y tîm, cymdogaeth sy'n patrolio'r ardal rhag gweld yn glir. Mae'r materion gyda'r ffens yn parhau ac felly yn dal i gael eu hystyried gyda Cynllunio. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd, er y codwyd y ffens i safon uchel, y byddai'n fodlon tynnu neu roi ffens arall os oedd pryderon.

Teimlai Heddlu Gwent y dylai'r ceisiadau gael eu gwrthod oherwydd problemau blaenorol yn y dafarn. Bu llawer iawn o bryder yn y gymdogaeth a theimlid fod y dafarn angen toriad clir heb unrhyw gysylltiadau gydag ymgeiswyr blaenorol. Dywedwyd nad hwn oedd y cyfle olaf i'r dafarn ac y gellid gwneud ceisiadau newydd.

Ar y pwynt hwn diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu sylwadau a gadawodd y Swyddogion Trwyddedu, Heddlu Gwent, yr Ymgeisydd a Chyfreithiwr yr Ymgeisydd y cyfarfod tra'r oedd yr Is-bwyllgor yn trafod y cais.

Wedyn trafododd yr Is-bwyllgor y cais a dderbyniwyd yng nghyswllt cais i drosglwyddo trwydded safle ac amrywio'r DPS yn Scarretts, 23 Greenfield Crescent, Beaufort, Glynebwy ac yn dilyn trafodaeth gwahoddwyd y Swyddogion Trwyddedu a Chynrychiolwyr yn ôl i'r cyfarfod a darllenodd y Cyfreithiwr benderfyniad yr Is-bwyllgor fel sy'n dilyn:-

Mae'r Is-bwyllgor, gan roi ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd, yr Heddlu a'u cynrychiolwyr cyfreithiol yn gwerthfawrogi fod ymddygiad annerbyniol wedi digwydd yn ac o amgylch y sefydliad yn y gorffennol ac wedi pwyso a mesur hyn gydag amcanion a dyletswyddau statudol Trwyddedu. Ystyriwyd hefyd y ffaith fod y safle wedi mwynhau cyfnodau heb broblemau a heb fod angen unrhyw ymgyfraniad gan yr heddlu.

Gwerthfawrogai'r Is-bwyllgor fod cysylltiad teuluol rhwng yr Ymgeisydd a pherchnogion y safle/y deiliaid trwydded blaenorol. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y cynllun rheoli a gyflwynodd yr Ymgeisydd a'i datganiad y bydd yn cydlynu gyda'r Heddlu, credai'r Is-bwyllgor y dylai'r Ymgeisydd gael cyfle i brofi ei hun a gwnaed y penderfyniad i:-

Dyfarnu'r cais i drosglwyddo'r Drwydded ac i fanylu Mrs Janet Stokes fel DPS.

**<u>Hawl i Apelio</u>**

Mae gan bob parti hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad hwn. Mae gan unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall hawl ofyn am adolygu'r Drwydded.